Gweinyddiaeth Cyfiawnder

**Damian Hinds AS**
Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol Carchar Ei Fawrhydi
Y Berwyn
Bridge Road
Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Wrecsam
Gogledd Cymru
LL13 9QE

Tachwedd 2022

Annwyl Gadeirydd

**CARCHAR EI FAWRHYDI Y BERWYN: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MAWRTH 2021 - 28 CHWEFROR 2022**

Diolch i chi am adroddiad eich Bwrdd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2022. Roeddwn wedi fy nhristáu i glywed am ddwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd arni. Fel y gwyddoch, mae Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (PPO) yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i farwolaethau yn y ddalfa a hoffwn sicrhau'r Bwrdd bod fy swyddogion yn cymryd argymhellion y PPO yn ddifrifol iawn.

Rwy'n hynod ymwybodol o faint o effaith sy'n mynd i mewn i lunio adroddiadau blynyddol a diolch i chi am roi darlun cynhwysfawr o Garchar Ei Fawrhydi y Berwyn yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd arni. Rwy'n ddiolchgar i chi ac i'ch cydweithwyr, yn enwedig felly gan y bu gennych nifer o swyddi gwag.

Rwyf ar ddeall yr ymwelodd y Cyn-Weinidog Carchardai, Alex Chalk AS, â'r carchar ar 16 Awst 2021 ac rwy'n gobeithio y cafwyd budd o'r ymweliad hwn.

Hoffwn sicrhau'r Bwrdd y gwneir bob ymdrech i recriwtio i'r lefelau staffio newydd. Edrychwn ymlaen at gyflawni ein hymrwymiad i Bapur Gwyn y Strategaeth Carchardai i gyflogi hyd at 5,000 o swyddogion carchar ychwanegol yn unol â gwaith ymestyn yr ystad. Mae gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) nifer o gynlluniau yn eu lle i gynorthwyo gyda recriwtio swyddogion carchar, sy'n cynnwys Hyrwyddo Cyfiawnder. Cynllun llwybr carlam yw hwn wedi ei ddylunio i gynorthwyo staff y lluoedd arfog a chyn-filwyr i ddod yn swyddogion carchar. Mae'r tîm recriwtio canolog hefyd yn parhau i deilwrio defnyddio marchnata i dynnu sylw at yr heriau ond hefyd y sgiliau a'r galluoedd y mae'r HMPPS yn chwilio amdanynt.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth ddyfarniad cyflog sy'n rhoi cynnydd o 4% o leiaf i holl staff y carchar a sylweddol fwy na hyn i Swyddogion Carchar a Chynorthwywyr Gweithredol sydd ar drefniadau moderneiddio tâl. Mae disgwyl i hyn gael effaith bositif ar recriwtio a chynnal staff. Er mwyn gwella mwy ar nifer y swyddogion carchar a gedwir, mae gwaith yn mynd rhagddo i wreiddio strategaeth allgymorth i sicrhau yr ymgysylltir â'r holl ymgeiswyr cyn iddynt ymuno â'r gwasanaeth a'u bod yn cael y cyfle i ymweld â'r carchar a gofyn unrhyw gwestiynau y byddo ganddynt ynghylch y swydd a materion Adnoddau Dynol. Mae HMPPS, hefyd, wedi rhoi cynllun 'cynorthwyo'r naill a'r llall' ar waith, sy'n cynnwys Cynlluniau Cyfeillio a Mentor Cydweithiwr Newydd y gweithredir arnynt ledled yr holl garchardai trwy gydol 2022-23. Mae'r

pecyn hwn o gynlluniau wedi ei lunio'n benodol i greu amgylchedd cefnogol a defnyddiol i staff carchardai ac i sicrhau eu bod yn teimlo y gallant wneud y swydd a hynny'n hyderus.

Roeddwn yn bryderus i ddarllen fod rhai aelodau o staff wedi profi camdriniaeth rhywedd a hoffwn gadarnhau nad oes lle i unrhyw fath o ymddygiad annerbyniol yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae'r cyfryw ymddygiad yn groes i werthoedd craidd y gwasanaeth ac ni chaiff ei oddef. Cymerir bob honiad o ymddygiad annerbyniol yn ddifrifol, byddir yn ymchwilio iddynt a, lle bo'n briodol, byddir yn cymryd camau disgyblu. Sefydlwyd yr Uned Mynd i'r Afael agYmddygiad Annerbyniol (TUBU) yn Awst 2020 ac mae'n gweithio i gynorthwyo staff trwy linell gymorth gyfrinachol, gwasanaeth cyfryngu a rhaglen o Asesiadau Hinsawdd i ddod ag ymddygiad annerbyniol i'r wyneb a rhoi sylw iddo. At hyn, mae gwasanaeth ymchwilio arbenigol yn cael ei ddatblygu i ymdrin â'r achosion mwyaf difrifol yn ymwneud â bwlio, aflonyddu, gwahaniaethu ac erledigaeth. Nod y gwaith hwn yw darparu lle cyfrinachol i staff godi pryderon a siarad trwy opsiynau. Mae hefyd yn fodd i HMPPS adnabod meysydd o bryder penodol a gweithredu'n broactif i ddatblygu hyder staff i adrodd ar faterion megis camdriniaeth rhywedd a llywio newid cadarnhaol mewn ymddygiad ar draws y Gwasanaeth.

Mae TUBU eisoes wedi cyfathrebu â Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar ynghylch amseru'r Asesiadau Hinsawdd yn yr ardal hon ac mae cynlluniau ar y gweill i gynnal asesiad yng Ngharchar Ei Fawrhydi y Berwyn yn y misoedd nesaf. Mae Carchar Ei Fawrhydi y Berwyn wedi cefnogi staff gyda lansio grŵp cefnogi staff benywaidd lleol. Mae'r grwp yn helpu i roi cymorth a gwell cefnogaeth i staff sy'n profi camdriniaeth a/neu ymddygiad amhriodol.

Gan droi at y pethau cadarnhaol yn yr adroddiad, roedd yn galonogol derbyn eich sylwadau am y gefnogaeth a roddir i garcharorion sy'n hunan ynysu wedi iddynt dderbyn canlyniad positif i Covid yn ystod y cyfnod clo ac yna i'r rhai nad oeddynt wedi cael ymweliadau gan eu teuluoedd am dros fis yn sgil llacio'r cyfyngiadau. Roeddwn hefyd yn falch o glywed am 'Chainbeakers', y system cymorth i gyfoedion, cyflwyno hwb adsefydlu a datblygu gêm a ysbrydolwyd gan y gêm 'Monopoly' o'r enw H.O.M.E. (home options made easier) sy'n arwain at welliant yn nifer lai y carcharorion sy'n cael eu rhyddhau heb gartref i fynd iddo.

Nodaf eich bod wedi codi rhai materion o bryder lleol yn eich adroddiad y bydd y Llywodraethwr yn parhau i roi gwybod i chi amdanynt wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Nodir sylwadau HMPPS i faterion eraill a godir yn eich adroddiad yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Mae'r Ysgrifennydd Cyfiawnder a minnau'n gwerthfawrogi rôl werthfawr aelodau o Fyrddau Monitro Annibynnol ledled yr ystad ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu gwaith caled parhaus ar ran CEF y Berwyn.

Yn gywir,



**Damian Hinds**
**Gweinidog dros y Gwasanaeth**
**Carchar a Phrawf**

**Atodiad**

## CARCHAR EI FAWRHYDI Y BERWYN: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MAWRTH 2021 - 28 CHWEFROR 2022

**Sylwadau'r HMPPS ar faterion a godir yn yr adroddiad.**

### Gweithdai

Yn sgil y pandemig trosglwyddwyd darpariaeth y gweithdy i'r carchar o'r darparwr blaenorol a gontractiwyd (Interserve) dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Gwarchod Cyflogaeth (TUPE) 2006.

Bu ailafael ar ddarpariaeth y gweithdy bellach ar ôl llacio'r cyfyngiadau, gan wella mannau gweithio fydd yn gymorth i garcharorion gael cyflogaeth pan gânt eu rhyddhau. Mae gan CEF y Berwyn gynlluniau i recriwtio i lenwi pob swydd wag hyfforddwyr. Mae'r Llywodraethwr wedi ymrwymo i roi gwybod i'r Bwrdd am y cynnydd yn ei gyfarfod misol.